

Sgitsoffrenia

Sgitsoffrenia yw'r ffurf mwyaf cyffredin o anhwylder seicotig, a gall effeithio ar y ffordd mae unigolion yn meddwl, teimlo ac ymddwyn.



Fel rheol, bydd sgitsoffrenia'n dechrau tua diwedd glaslencyndod neu wrth ddechrau tyfu'n oedolyn, a'r duedd yw iddo ddechrau ychydig yn hwyrach mewn menywod nag mewn dynion.

Nid oes gan bobl â sgitsoffrenia 'bersonoliaeth hollt', ac nad yw'r mwyafrif o bobl â sgitsoffrenia yn beryglus nac yn debyg o gyflawni trosedd.

Bydd sgitsoffrenia'n effeithio ar ryw un o bob 100 o bobl.

Symptomau cyffredin

- **Rhithdybiau** – Credu'n bendant bethau nad ydynt fel rheol yn wir. Er enghraifft, gall pobl feddwl fod rhywun eisiau eu hanafu hwy neu eu teulu.
- **Gweld Rhithiau** – Canfyddiadau ffug lle y gall pobl [glywed lleisiau](#) neu weld pethau nad ydynt yno mewn gwirionedd. Gall rhithdybiau a gweld rhithiau fod yn real iawn i'r sawl sy'n eu profi, a pheri llawer iawn o ofid.
- **Dryswch meddwl** – Weithiau caiff pobl drafferth wrth gyfleu eu meddyliau a gall hynny ei gwneud hi'n anodd

dilyn yr ystyr.

[Darllen rhagor: Y Ganolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol \(pdf\)](#)

[Oes gyda chi'r argraff anghywir am sgitsoffrenia?](#)

Yn ôl yr elusen Ailfeddwl Salwch Meddwl ([Rethink](#)) mae arolwg o 1,500 o bobl yn dangos fod y cyflwr yn cael ei gamddeall gan lawer.

Mae un o bob 100 o bobl yn cael eu heffeithio gan sgitsoffrenia yn ystod eu bywyd, ond mae 45% o'r rhai a holwyd yn meddwl bod y salwch yn llawer iawn mwy cyffredin na hynny. Roedd hanner y rhai a holwyd yn gwneud y camgymeriad o feddwl bod y salwch yn cael ei ddiffinio gan bersonoliaeth ddeublyg a chwarter yn gwneud y camgymeriad o feddwl ei fod yn bendant yn arwain at ymddygiad treisgar.

Er bod risg uwch o ymddygiad treisgar os oes gennych chi sgitsoffrenia, nid yw o reidrwydd yn gwneud pobl yn beryglus. Mewn cymhariaeth, y mae cyffuriau ac alcohol yn achosi llawer mwy o drais. Mae pobl sydd â sgitsoffrenia yn llawer iawn mwy tebygol o gael eu niweidio eu hunain gan bobl eraill nac y maen nhw o wneud niwed i bobl eraill, meddai'r Seiciatryddion. ([darllen rhagor](#))

Mwy o wybodaeth

- [Darllen rhagor am Sgitsoffrenia ar meddwl.org](#)
- [Sgitsoffrenia a pharadocsau mewnwelediad : Prifysgol Caerdydd](#)
- [Ydy sgitsoffrenia'n glefyd hunanimiwn? : Prifysgol Caerdydd](#)
- [Sgitsoffrenia : Gofal](#)
- [Sgitsoffrenia : NCMH \(pdf\)](#)

- [Oes gyda chi'r argraff anghywir am sgitsoffrenia?](#)
 - [What is schizophrenia? : Mind \(Saesneg\)](#)
-

Newyddion

- [Gwyddonwyr yng Nghaerdydd yn gwneud datblygiad enfawr i ddeall sgitsoffrenia \(26 Chwefror 2018\)](#)
 - [Sgitsoffrenia'n codi ofn ar gyflogwyr \(31 Ionawr 2018\)](#)
-

Dolenni eraill

- [Fforwm drafod : Seicosis, Clywed Lleisiau, Sgitsoffrenia a TD](#)
- [Cymorth](#)
- [Triniaethau](#)
- [Gwybodaeth, llinellau cymorth a rhestr o elusennau](#)